# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 9fed Medi 2024
Festri Capel Garnfadryn

Presennol: Terry Huws, Dafydd Williams, Alun Williams, Gareth Jones, John Daveis, Sian Parri, Henry Hughes, Chris Brady,

Ymddiheuriadau: Deio Williams

1. Cadeirwyd gan Catrin Williams, estynnodd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cyfnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (Hysbysfwrdd) –** Derbynwyd pris gan y saer coed o £1200.00 am hysbysfwrdd pren i bentref Garfnadryn. Bydd y Clerc yn cyflwyno cais am grant i gael y ddau hysbysfwrdd.
   b. **Mynwent Newydd Tudweiliog** – Bu i'r clerc holi am grant, does dim ar gael ar y funud. Fe lenwodd y Clerc y ffurflen cais cynllunio ond cyn ei gyflwyno dywedodd Carter Jonas y byddai angen cyflwyno pob dim i'r stad Cefnamwlch yn gyntaf – bydd Hugh O'Donnell Carter Jonas yn dod nol hefo ymated yn fuan.
   c. **Carafan heb ganiatad Llangwnnadl –** ni chafwyd ymateb.
   ch **Audti Allanol –** Cafodd y Clerc gadarnhad fod yr audit wedi ei gwblhau ac y byddwn yn derbyn cadarnhad yn fuan.

4. Gohebiaeth:
   a. **Cyflog y Clerc -** Cafwyd caniatad i'w dalu..
   b. **Cais cynllunio C24/0637/46/LL** Awelon, Tudweiliog- Cefnogi
   c. **Cais cynllunio C24/0605/46/LL** PwllGoed Tudweiliog - Cefnogi

**Ch.Adolygu a Mabwysiadu polisiau a Rheolau Sefydolg-** Anfonodd y Clerc yr holl bolisiau ar rheolau sefydlog i'r Cynghorwyr, Penderfynwyd nad oedd angen newid ac fe ail fabwysiadwyd y cyfan.

d. **Derbyn hanner y praesept –** Derbynnnwyd £5000.00 o'r praesept.

dd. **Anfoneb Zurich £441.03 -** derbynwyd caniatad i'w thalu

e. **Anfoneb Cyngor Gwynedd Archwyliad Mewnol £372.00 –** derbynwyd caniatad i'w thalu.

f. **Anfoneb ico £40.00 –** derbynwyd caniatad i'w thalu.

ff. **Ffi cais cynllunio £230.00 –** derbynwyd caniatad i'w dalu (pan fydd y Clerc yn cyflwyno'r cais).

5. Rhannu'r Praesept:

| | |
|---|---|
| Mynwentydd Bro Madryn | - £100.00 |
| Mynwent Tudweiliog | - £100.00 |
| Mynwent Dinas | - £100.00 |

6. Unrhyw Fater Arall:-

a. Cafwyd pryder fod Cwt Cychod Porthysgaden yn cael ei ddefnyddio fel man i ymgynull gan adael ysbwriel o bob math ynddo. Penderfynwyd fod y Clerc yn cysylltu a Carter Jonas gan awgrymu eu bod yn gosod drws metal neu fod y drws yn cael ei gau fyny yn gyfangwbwl – byddai aelodau o'r Cyngor Cymuned yn fodlon gwneud y gwaith os byddai y stad yn talu am y nwyddau.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun Hydref 14eg 2024 am 7.30yh
Festri Capel Tudweiliog..